Mae Margaret Roberts, beirniad llenyddiaeth eleni yn gyn-ddarlithydd mewn Cymraeg fel mamiaith ac ail iaith mewn ysgolion a phrifysgolion. Yn ystod ei gyfra bu'n ysgrifennu a chynnal cyrsiau i ddysgwyr yn Adran Efrydiau Allanol Bangor, darlithio rhan amser yn APCC/UWIC a chynnal cyrsiau gohebol, ar-lein ac yn y gweithle i Brifysgol Morgannwg. Cynhyrchodd Margaret ddramâu a sioeau lleol yn y gogledd ac ym Mhentyrch ac mae'n feirniad mewn eisteddfodau ym Morgannwg a Gwent.

Beirniadaethau

Stori Fer

Daeth 8 ymgais i law. Mewn stori fer, rhaid cael cynildeb, cymeriadu, undod ac efallai tro annisgwyl yng nghynffon y stori a hynny wedi'i fynegi mewn iaith raenus.
Cafwyd amrywiaeth o straeon – straeon ysbryd, straeon anarferol, trist, troeon trwstan trallod a thwyll a'r iaith a'r mynegiant, drwyddi draw, yn eitha glân.
Gwendid pennaf rhai o'r straeon oedd y duedd i'r arddull fynd yn rhy draethodol a'r cynnwys fod yn gronolegol.
Mae'r wobr gyntaf yn mynd i ***'Ironic Metaphor'*** am stori deimladwy wedi'i saernïo'n eitha cynnil a'r mab yn ennyn cydymdeimlad.
Yr ail i ***Ystumiwr*** am gynildeb y stori; wedi'u saernïo'n dynn; mae'n awgrymu yn hytrach na disgrifio ac yn gadael i'r darllenydd benderfynu ar dynged y dyn ar y diwedd. Mae'r 'deryn du' yn uno'r stori. Heblaw am ambell wall sillafu *e.e. 'lleni',* mae'r iaith yn gadarn ar y cyfan
A'r drydedd i ***Tansi Gwyllt*** am stori eithaf gafaelgar a'r diwedd yn ein hanesmwytho a'r iaith a'r mynegiant yn gyffredinol raenus.

Cerdd - Newid

9 cerdd ddaeth i law a chafwyd triniaethau amrywiol ar y pwnc. Roedd un bardd yn trafod y newid yn 'ansawdd y dyfodol' oherwydd 'awel anweledig' Chernobyl; cerdd arall wedyn yn sôn am y tymhorau'n newid lliw natur gan gymharu dail yn cwympo â dillad sy'n cael eu diosg ar ôl oriau gwaith yn ogystal â'r dillad gwahanol a wisgir ar adegau gwahanol o'r flwyddyn. Soniodd mwy nag un bardd am y newid a fu yn ein ffordd o fyw ac un yn mynnu bod rhaid i ni wrando mwy ar ein gilydd a 'newid ein sylfaen'. Roedd un gerdd yn sôn am y trai a fu ar y nifer sy'n mynychu eglwys, gan gyfeirio'n benodol at Eglwys Llandeilo Tal y Bont.
Y newid y cyfeiria '*Gweledydd'* ato yw'r newid a fydd yn digwydd ar ôl i berchennog newydd brynu'r fferm deuluol mewn ocsiwn. Mae'r bardd wedi cyfleu diwrnod yr ocsiwn yn fyw ac mae'r darlun o olwyn lywio'r tractor yn un 'o res o eitemau yn cae' yn effeithiol. Hoffais yr eironi yn y ddwy linell olaf .
' ond i glywed mewn sibrwd
'Bydd newid cyn bo hir'
Roedd y bardd dan y ffugenw *Somme* yn ymdrin ag effaith parhaol erchyllterau brwydr y Somme, gyda'r cyrff meirw'n halogi'r tir. Mae'r eirfa a'r darluniau'n adlewyrchu'r gyflafan. Mae'r gerdd wedi'i saernïo'n grefftus a llwyddodd y bardd i gynnal y ddelwedd o 'lif' drwy'r gerdd.
Soned gawsom gan *Iolo* ac roedd rhyw ffresni ynddi. Yn yr wythawd, cyfeiria at sefyllfa'r bobl dduon yn y gorffennol yn 'ysgymun yn eu gwlad a'u bro'. Â ymlaen i

ddisgrifio Barack Obama yn ‘hudo’r miloedd ‘i gyfaredd mwyn’ i geisio sicrhau ‘byd tecach’ a ‘saffach’. Ceir ambell gyffyrddiad effeithiol megis y cwpled olaf
‘A’i ddwyfraich yn ymestyn tua’r llu
Yn gwahodd y cymod rhwng y gwyn a’r du’
Felly y wobr gyntaf i ***Iolo***
Yr ail i ***Somme***
A’r trydydd i ***Gweledydd***

Englyn
Roedd un englyn yn sefyll allan o’r dechrau yn y gystadleuaeth hon. Roedd yn gywir, yn gelfydd ac yn drosiadol dda. Mae’r gynghanedd yn brin iawn yn yr ymdrechion eraill a dderbyniwyd. Mae *Disgybl* yn cymharu plant y dosbarth â hadau bach sy’n egino. Mae’n englyn cynnes iawn ac yn llawn haeddu’r wobr gyntaf.